MANIFFESTO

# Etholiad y Senedd'26

UNISON Cymru




Cydnabyddiaeth Gwaith Celf: Yasmin Warrey

PUBLISHED BY UNISON CYMRU 2026

# GWASANAETHAU CYHOEDDUS YW ASGWRN CEFN EIN GWLAD.

Ar draws Cymru, mae aelodau UNISON yn gofalu am ein hanwyliaid, yn cefnogi ein plant, yn cadw ein cymunedau'n ddiogel ac yn darparu'r gwasanaethau sy'n gwneud bywyd bob dydd yn bosibl. Nhw yw curiad calon ein GIG, ein cynghorau, ein hysgolion a'n gwasanaethau gofal.

Ond ar ôl blynyddoedd o gyni, cyfyngu ar gyllido a chostau cynyddol, mae'r gwasanaethau hynny dan straen gwirioneddol. Mae gormod o weithwyr yn cael eu gorfodi i gyflawni mwy na'r hyn sy'n rhesymol. Mae gormod o gymunedau'n teimlo eu bod wedi'u gadael ar ôl.

Gyda mwy o seddi a system gwbl gyfrannol, mae etholiad y Senedd y tro hwn yn ddewis ynghylch y math o Gymru yr ydym am ei hadeiladu.

Credwn y gall Gymru fod â gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf, a bod rhaid i hyn ddigwydd. Wedi'u hariannu'n briodol, eu cynnal yn gyhoeddus ac wedi'u hadeiladu o amgylch anghenion ein cymunedau, nid elw preifat. Gwasanaethau sy'n rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn, balchder i bob teulu yn y cymunedau maen nhw'n byw ynddynt ac urddas i bob person hŷn mewn gofal.

Mae ein haelodau'n gwybod nad moethusrwydd yw gwasanaethau cyhoeddus cryf. Nhw yw sylfaen cenedl deg, lewyrchus a hyderus. Pan fyddwn yn buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn buddsoddi mewn swyddi lleol, economïau lleol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Ar adeg pan mae rhai'n ceisio rhannu cymunedau a thanseilio'r syniad o wasanaethau cyhoeddus cyffredinol, mae'n bwysig dweud bod Cymru'n llwyddo pan fyddwn yn sefyll gyda'n gilydd fel yr ydym wedi dangos trwy ein deddfwriaeth arloesol ar bartneriaeth gymdeithasol. Mae contractio allanol bob amser yn arwain at dorri costau a gwasanaeth gwannach i'r cyhoedd. Mae cyflogau ac amodau gwaith yn cael eu gwasgu er mwyn gallu gwneud elw.

Mae'r maniffesto hwn yn amlinellu blaenoriaethau bron i 100,000 o aelodau UNISON yng Nghymru. Mae'n galw ar y rhai sy'n ceisio ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i gyflog teg i bob gweithiwr gwasanaeth cyhoeddus, contractio mewnol, GIG gwell, Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol newydd, partneriaeth gymdeithasol gref a chyllid tecach i Gymru.

***Jan Tomlinson***
Cynullydd, UNISON Cymru



***Jess Turner***
Ysgrifennydd Rhanbarthol, UNISON Cymru



# Gwasanaethau cyhoeddus gwell ar gyfer Cymru decach




Aelodau UNISON yw canolbwynt ein cymunedau. Maent yn gweithio mewn ysgolion, cynghorau lleol, gofal cymdeithasol, sectorau gwirfoddol, yr heddlu a chyfiawnder, cyfleustodau, cyrff cyhoeddus ac ar draws ein GIG.

Menywod ydyn nhw'n bennaf; maen nhw'n aml ar y cyflogau isaf. Gallant fod yn bobl sydd wedi byw yng Nghymru trwy gydol eu hoes, neu gallant fod yn bobl sydd wedi teithio o dramor i weithio yma.

Mae'r etholiad hwn yn ymwneud â sicrhau dyfodol y gwasanaethau cyhoeddus hanfodol maen nhw'n eu darparu.

Fel darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus, maen nhw eisiau mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ac maen nhw'n haeddu gallu fforddio byw'n dda a gwresogi eu cartrefi ar gyflog teg.

Trwy UNISON Cymru maen nhw'n siarad fel un – maen nhw eisiau gwasanaethau cyhoeddus gwell ar gyfer Cymru decach.




# Cyflog teg i weithwyr er mwyn mynd i'r afael â chostau byw

Po orau y caiff gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus eu talu, y mwyaf y bydd ein heconomïau lleol yn elwa.

Mae pob £1 a gaiff ei hennill yn creu 64c ychwanegol o werth i'r economi leol.

Eto, mae cyflogau wedi methu â chadw i fyny â chwyddiant na chyflogau'r sector preifat, sy'n golygu bod yn rhaid i aelodau UNISON wneud mwy gyda llai bob blwyddyn, ac mae anghydraddoldeb yn gwaethygu ledled Cymru. Mae cyflog isel a gwaith sy'n cael ei danbrisio'n dwysáu'r argyfwng recriwtio a dargadwedd mewn sectorau fel gofal cymdeithasol.

Dyna pam y bydd aelodau UNISON mewn ysgolion a gofal cymdeithasol yn mynnu mwy trwy gyrff bargeinio cyfunol sectoraidd newydd, y mae angen eu sefydlu'n gynnar yn nhymor newydd y Senedd.

Rhaid iddyn nhw negodi i ddod â sgandal cyflog yn ystod y tymor yn unig mewn ysgolion i ben ac isafswm o £15 yr awr i weithwyr gofal cymdeithasol yn y sector preifat a'r trydydd sector. Dylent hefyd fynd i'r afael â phroblemau hirhoedlog fel tâl salwch ac amser gwaith di-dâl ar gyfer gweithwyr gofal yn y cartref.

Mae gweithwyr yn disgwyl bod rhaid i gytundebau cyflog teg gael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru sydd wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y gwasanaethau hanfodol maen nhw'n eu darparu.

Mae aelodau UNISON ym maes iechyd eisiau'r hyn sydd gan eu cydweithwyr yn yr Alban eisoes; cyflogau gwell ac wythnos waith wedi'i lleihau i 36 awr heb golli cyflog, wedi'i gyflawni trwy drafodaethau uniongyrchol gyda chyflogwyr a Llywodraeth Cymru. Ni allant barhau i ddibynnu ar benderfyniadau corff adolygu cyflogau yn Llundain, sydd heb atebolrwydd.




# Adeiladu Cymru decach, wyrddach a mwy cyfartal

Mae aelodau UNISON yn gweithio er llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae swyddi gwasanaeth cyhoeddus yn swyddi carbon isel, gwerth chweil sydd eu hangen ym mhob dinas, tref a phentref yng Nghymru.

Mae'r gwaith gofalu a wneir gan aelodau UNISON yn caniatáu i fwy o bobl fyw, dysgu a gweithio mewn amgylchedd glân ac iach. Maen nhw'n gwneud Cymru'n fwy cyfartal trwy alluogi pobl i ffynnu beth bynnag fo'u dosbarth cymdeithasol, hil, rhywedd, rhywioldeb, anabledd, oedran, iaith, cenedligrwydd neu gred.

Lle mae rhai yn gweld costau tymor-byr yn unig ac yn diraddio eu gwaith, mae pobl gyffredin yn gwybod bod gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud swyddi o werth aruthrol ar draws pob cenhedlaeth.

Mae'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu yn gwneud Cymru'n fwy ffyniannus, yn fwy cydlynol, ac yn fwy cydnerth. Maen nhw'n sicrhau ein bod ni'n fwy cyfrifol yn fyd-eang wrth leihau allyriadau a bod ein diwylliant a'r iaith Cymraeg yn fwy ffyniannus.

Ac eto, er gwaethaf 26 mlynedd o ddatganoli, mae Cymru yn dal i fod yn un o ranbarthau tlotaf y DU ac mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu anawsterau.

Mae Fformiwla Barnett, cyfyngiadau ar bwerau benthyca a diffyg rheolaeth dros adnoddau megis Ystâd y Goron yn atal Llywodraeth Cymru rhag cyflawni mwy i bobl Cymru.

Mae aelodau UNISON eisiau i Lywodraeth Cymru fynnu mwy o ddatganoli mewn sectorau megis y gwasanaeth prawf a chyllido tecach i Gymru, fel y gallant gyflawni'r gwelliannau yr ydym i gyd am eu gweld mewn iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a'r amgylchedd naturiol.




# Llais cryf i weithwyr i wneud Cymru'n decach

Mae aelodau UNISON yn gwybod sut i ddefnyddio cyllido teg i wella gwasanaethau cyhoeddus. Maen nhw eisiau bod yn rhan uniongyrchol o greu gwasanaethau gwell, ochr-yn-ochr â'r bobl maen nhw'n eu cefnogi.


Ni ddylai partneriaeth gymdeithasol fod yn rhywbeth sy'n digwydd mewn ystafell bwyllgor ym Mae Caerdydd yn unig, dylai fod wedi'i hymgorffori yn y ffordd y mae newid yn digwydd ar draws sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus Cymru.

Mae gweithwyr eisiau mwy o rym i lunio a rheoli'r dechnoleg maen nhw'n ei defnyddio, yn hytrach na bod technoleg yn cael ei defnyddio i'w rheoli nhw neu eu disodli.

Maen nhw eisiau dysgu a datblygu, gyda mwy o sgiliau a mwy o gyfleoedd i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd. Mae angen Cronfa Ddysgu Undebau Cymru arnyn nhw i feithrin eu hyder a rhoi mwy o lais iddyn nhw yn eu gweithleoedd.

Mae Cymru angen pobl sydd wedi'u hyfforddi a'u cyflogi i ôl-osod ac adnewyddu ein stoc tai, sy'n hen ac yn oer, trwy brentisiaethau sector cyhoeddus o ansawdd da, â chyflog da.

Mae angen mwy o amddiffyniad ar aelodau UNISON rhag yr hinsawdd sy'n newid ac sy'n dinistrio eu cartrefi a'u strydoedd siopa. Mae angen mwy o fuddsoddiad arnyn nhw yn y seilwaith a'r gwasanaethau sy'n gwneud cymunedau'n fwy diogel ac mewn sefyllfa well i ymdopi â llifogydd, stormydd a thywydd gor-boeth.




# Gwasanaethau cyhoeddus cyffredinol ar gyfer Cymru fwy llewyrchus

Mae aelodau UNISON yn parhau i fynnu creu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol wedi'i gyllido'r gyhoeddus, sy'n eiddo cyhoeddus ac sy'n cael ei gynnal yn gyhoeddus i ddarparu mwy o urddas a pharch i bawb yng Nghymru, gan ddileu elw o bob sefyllfa gofal unwaith ac am byth.

Mae contractio allanol yn golygu bod gan weithwyr lai o arian i'w wario yn yr economi leol na'u cydweithwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol, ac mae arian cyhoeddus yn llifo allan ar ffurf elw. Maen nhw eisiau i wasanaeth gael ei ddychwelyd i bob rhan o'r sector cyhoeddus.

Mae'r system bresennol ar gyfer y fisa gofal wedi arwain at bwysau ac anghydraddoldebau annerbyniol rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac mewn rhai achosion camfanteisio a chaethwasiaeth fodern. Mae aelodau UNISON eisiau i Lywodraeth Cymru wneud ymrwymiad i gefnogi gweithwyr mudol sy'n wynebu camfanteisio.

Maen nhw'n mynnu gwasanaethau'r GIG sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gydag adeiladau ysbytai sy'n ddiogel, yn effeithiol, a gweithleoedd sy'n galluogi staff i fynd i'r afael â rhestrau aros.

Mae aelodau UNISON angen terfyn ar yr argyfwng tai trwy adeiladu mwy o dai cyngor ym mhob cymuned, a symud oddi wrth gynnig cymhorthdal ar gyfer rhenti preifat.

Mae gweithwyr eisiau trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy a hygyrch. Byddai prisiau bysiau lleol cyffredinol o £1 i bob oedolyn yn hawdd ei ddeall ac yn boblogaidd ym mhob rhan o Gymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n dioddef fwyaf o doriadau mewn gwasanaethau.

Mae UNISON yn galw ar y rhai sy'n ceisio ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru i wrando'n ofalus ar bron i 100,000 o leisiau sy'n aelodau o'r undeb llafur mwyaf yng Nghymru.

Gwnewch eu blaenoriaethau nhw yn flaenoriaethau i chi trwy gyflawni dros Gymru decach. Mae aelodau UNISON eisiau:

- **GWASANAETHAU CYHOEDDUS O'R RADD FLAENAFS –**
  Ymrwymo i wasanaethau cyhoeddus cyffredinol, trwy'r don fwyaf o gontractio mewnol mewn cenhedlaeth a hybu trafnidiaeth a thai cyhoeddus.

- **CYLLIDO CYFANNOL AR GYFER GWASANAETHAU CYHOEDDUS –**
  Ymrwymo i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol hir-dymor sy'n lleihau'r galw ar ymyriadau adweithiol mwy costus a gwella deilliannau bod-dydd i bobl Cymru.

- **NEGODI AM WELL CYFLOG –**
  Ymrwymo i ariannu Cytundebau Cyflog Teg a chreu Corff Negodi ar gyfer Staff Cymorth Ysgolion yng Nghymru er mwyn rhoi terfyn ar gyflog yn ystod y tymor yn unig mewn ysgolion, sicrhau isafswm cyflog fesul awr o £15 ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gofal cymdeithasol, a symud i fargeinio uniongyrchol ar gyfer cyflogau yn GIG Cymru.

- **CADW ELW ALLAN O OFAL –**
  Ymrwymo i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru o'r diwedd, gan adeiladu cymdeithas fwy cyfartal ac atal caethwasiaeth fodern yn y broses.

- **LLAIS CRYF I WEITHWYR –**
  Ymrwymo i ymgorffori partneriaeth gymdeithasol ym mhob gwasanaeth cyhoeddus, gan roi lleisiau gweithwyr medrus a gwybodus sy'n aelodau o undeb wrth galon newid yn y gweithle.

- **TEGWCH I GYMRU –**
  Ymrwymo i weithio gyda llywodraethau ledled y DU i sicrhau mwy o bŵer datganoledig a chyllido tecach i Gymru.

UNISON Cymru